**Uned 21**

**Digornio**

**Taflen Wybodaeth**

**Cyflwyniad**

Mae'r sesiwn hon yn delio â digornio, sef cael gwared ag egin neu dyfbwynt y corn. Mae'n cael ei weithredu ar loeau i atal iddynt dyfu cyrn fel gwartheg. Mae rhai bridiau'n ddi-gyrn yn naturiol. Golyga hyn na fyddant yn tyfu cyrn oherwydd eu geneteg.

**Digornio**

Mae dwy ran i gorn buwch
- casin allanol a elwir yn gorn
- canol yr asgwrn.

Mewn llo ifanc, mae'r croen o amgylch y corn yn secretu deunydd caled iawn a elwir yn geratin. Mae hwn yn tyfu i fyny dros y corn i ffurfio'r casin allanol. Yna mae'r asgwrn penglog yn ymestyn i geudod y corn.

Mae digornio'n cael gwared â chelloedd yn y croen sy'n ffurfio'r corn, ac felly'n atal y corn rhag tyfu. Gellir gwneud hyn mewn 2 ffordd**:**

1. **Â Haearn Poeth**
2. **Seriad Cemegol**

**1. Digornio â Haearn Poeth**

- pan mae'r llo rhwng 3 a 6 wythnos oed ydi'r amser gorau i wneud hyn
- rhaid medru teimlo'r egin corn yn glir ond fe ddylid digornio cyn i'r egin gorn dyfu'n rhy fawr i ffitio i mewn i'r haearn digornio
- mae nerf y corn yn rhedeg allan o gefn y llygaid ac o dan silff fach o asgwrn sy'n rhan o'r benglog (rhigol ocsipitol)
- mae gwythïen a rhydweli'n rhedeg ar hyd y nerf
- y nod yw anesthetigo egin y corn fel nad yw'r llo'n gallu ei deimlo'n cael ei losgi i ffwrdd.

**Y Ddeddfwriaeth**

Ar hyn o bryd mae'r ddeddf yn datgan:

1) Gellir digornio lloeau yn ystod 7 diwrnod cyntaf eu bywyd trwy seriad cemegol heb anesthetig gan unigolyn digymwys.

2) Gellir digornio anifail o unrhyw oedran gan unigolyn anghymwys ar ôl rhoi anesthetig.

**Sut mae gweithredu Digornio â Haearn Poeth?**

1. Rhaid ffrwyno'r llo a'i ben yn sownd wrth ei bigiadu.

2. Defnyddir nodwydd fer 25mm i bigiadu 2.5 - 3ml o anaesthetig lleol i'r nerf. Mae'r nerf wedi ei lleoli o dan silff asgwrn yn y rhigol ocsipitol.

3. Ar ôl mewnosod y nodwydd, gallwch ei thynnu'n ôl fymryn i wirio nad oes ôl-lenwad gwaed yn y chwistrell. Mae hyn yn sicrhau nad ydych yn pigiadu anaesthetig i'r llif gwaed gan fod yr wythïen a'r rhydweli'n rhedeg cyfochrog â'r nerf (Gallai pigiadu i mewn i'r pibellau gwaed achosi'r llo i syrthio).

4. Gadewch y llo am o leiaf 5 munud ar ôl pigiadu.

5. Tra bod yr anaesthetig yn gweithio, tociwch y blew o gwmpas yr egin gorn i ddinoethi'r lle sydd i'w losgi.

6. Cyn defnyddio'r haearn, gwiriwch fod yr egin gorn yn ddideimlad. Gellir mewnosod nodwydd i fôn yr egin. Ni ddylid cael unrhyw adwaith o'r llo. Os oes adwaith, mae angen pigiad anaesthetig newydd.

7. Gyda phen y llo yn sownd, gosodwch yr haearn poeth dros yr egin fel bod yr holl gorn yn ffitio i'r rhigol ar waelod yr haearn.

8. Gyda phwysedd cymedrol, gadewch i'r haearn losgi am 10 eiliad, gan gylchdroi'r haearn yn eich llaw, ac yna onglwch yr haearn er mwyn codi'r egin gorn allan. Mae cylch brown llosg yn ymddangos

9. Rhaid distrywio'r croen o amgylch tu allan i'r corn, gan mai dyma le mae celloedd cyrn newydd wedi eu lleoli. Unwaith mae'r meinweoedd celloedd y corn wedi eu symud nid oes siawns iddynt aildyfu

10. Gellir chwistrellu chwistrelliad gwrth bacteriol ar yr egin i atal haint.

**3. Digornio â Seriad Cemegol**

1. Gellir rhoi past ar yr egin pan mae'r llo'n 1 wythnos oed.
2. Mae'r past hwn yn cynnwys cemegau cryf iawn sy'n llosgi a lladd y celloedd sy'n ffurfio'r corn.
3. Does dim tyfiant egin.